Newyddion Ysgol Nefyn – Mai 2010

Mae cael ffrindiau'n gweithio efo ni'n yr Ysgol yn werthfawr iawn, iawn fel arfer ac yn gwneud i addysg fod yn fwy diddorol. Cawsom hwyl pan ddaeth criw "Planed Plant" ar frys i mewn i'n dosbarthiadau i gyflwyno gwybodaeth am raglen newydd "Stwnsh". Roedd yn fwy o hwyl fyth cael derbyn anrhegion ganddyn nhw cyn iddyn nhw ymadael ag Ysgol Nefyn. Mae Anti Susie a'r Parchedig Robert Roberts wedi cyflwyno gwasanaethau diddorol yma'n yr ysgol fel arfer.

Daeth Gwawr o'r Gwasanaeth Tân atom i'n dysgu am bwysigrwydd larwm mwg yn ein cartrefi ac i sôn am waith y dynion tân a'u gwisgoedd. Roedd Sioe "C'lan" gan gwmni'r Frân Wen (Prosiect Theatr mewn Addysg) ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn werth ei gweld. Cawsom gyfle i ddysgu pa mor bwysig yw peidio bwlio disgyblion a bod yn ffrindiau gyda'n gilydd bob amser. Sioe arbennig o dda oedd sioe "Dim ond Eiliad" – Sioe Diogelwch Y Ffyrdd i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 hefyd. Bydd plant yr ysgol sy'n cychwyn eu gyrfa yn Ysgol Uwchradd Botwnnog ac Ysgol Uwchradd Pwllheli'n teimlo'n hapusach o lawer wrth drafeilio yno ac o'na rwan.

Roedd disgyblion Blwyddyn 5 yn meddwl fod cael treulio diwrnod yng nghwmni Gwyndaf Jones Fferm Cae'r Graig Efailnewydd yn ffantastig! Cael gwneud hufen îa ein hunain a'i fwyta – Dyma beth yw hwyl go iawn. Cofiwch fod croeso i unrhyw riant ymuno â'r grŵp "Llythrennedd Teulu " sy'n cyfarfod yn yr Ysgol bob bore Llun. Mae'n gyfle i weithio a chael hwyl efo ffrindiau. Ar hyn o bryd mae'r murlun ar un o waliau'r iard ar ganol cael ei lunio. Ar Ddydd Llun Mehefin 7fed bydd cyfle i ymweld â'r Orsaf Dân yn Nefyn am 9:15 o'r gloch – pawb i ymgynnull yno neu yn yr Ysgol am 9:00 y bore.

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr Ysgol am gystadlu a llwyddo mor arbennig o dda'n Sioe Nefyn. Enillwyd cwpan yn y sioe i'r Ysgol gyda'r marciau uchaf yn yr Adran Gelf. Hefyd enillwyd y wobr cyntaf a'r pedwerydd gwobr am gywaith celf gan blant Ysgol Nefyn.

Llongyfarchiadau i <u>bob un</u> o'r plant a enillodd y gwahanol wobrwyon yn y sioe am waith unigolion yn y gystadlaethau. Roedd cyfraniad y plant ar y rhaglen "Digwyddiadau – Sioe Nefyn" ar y teledu'n dda iawn.

Diolch i Mrs Owen am ei rhan gwerthfawr hi ac i Mrs Howel a Mrs Evans am arwain y gwaith cywaith.
Bydd tim hoci'r Ysgol yn teithio i Borthmadog unwaith eto i gystadlu'n y rownd nesaf o'r gystadleuaeth wedi iddyn nhw fod yn fuddigol yn y rownd gyntaf. Pob lwc yn y rownd nesaf.
Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Gae'r Gors i dreulio diwrnod mewn cwrs ysgrifennu creadigol yno – a chael hwyl!
Treuliodd disgyblion Blwyddyn 5 ddiwrnod yn ymweld â Phlas Mawr Conwy a Chastell Gwydir Llanrwst fel rhan o'u gwaith Hanes.
I ganolfan Alwen,Cerrig y Drudion aeth disgyblion Blwyddyn 4 fel rhan o'u gwaith ar y prosiect `Dŵr`.
Bu Yncl Cemlyn ac Anti Morfudd yn garedig dros ben efo ni pan aeth 13 o blant Blwyddyn 5, Mrs Howel a Mrs Glenys Williams yno am ddau ddiwrnod. Roedd yn braf cael crwydro o amgylch y gwahanol lynnoedd a chael treulio amser ym Meddgelert. Roedd y ddwy athrawes yn falch am eu bod wedi clywed y gog yn canu lawer gwaith. Mi oedd yn grêt cael gwylio Mrs Howel yn dawnsio yn ei "Pyjamas" i gerddoriaeth "Mamma Mia".
Mae mwy o waith diolch o'r ysgol – Diolch i glwb y Bingo am eu rhodd hael o £100 unwaith eto.
Diolch i'r rhieni a ymunodd â ni'n y clwb cerdded i gasglu arian i gael cyfrifiaduron i'r Ysgol. Rydym yn gobeithio y bydd tua £1,000 yn dod i law (yn cynnwys £500 fel rhodd gan y banc).
Diolch i'r rhieni sydd wedi gweithio'n galed yn yr ardd. Roedd fel `jyngl` cyn iddyn nhw ddechrau ar y gwaith tacluso. Treuliwyd tua deg awr yno i gyd. Rydym fel staff yr Ysgol yn gwerthfawrogi parodrwydd rhieni'r Ysgol i'n helpu'n gyson fel hyn.
Diolch i Anti Ella ac Anti Jessie am ddod atom bob wythnos i helpu gyda'r gwnio a'r darllen.
Mae Steffan a Guto yn rhan o'r band rhanbarth ac fe deithiodd y ddau i gyngerdd Rhanbarth Botwnnog yn Theatr Seilo Caernarfon. Roedd cyfle i Grwpiau Cerdd Rhanbarth Botwnnog a Chaernarfon rannu llwyfan am y tro cyntaf eleni. Da iawn hogia!